**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DC/VG/00469/23

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomi@senedd.cymru

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

7 Mehefin 2023

Annwyl Paul, Huw

Rwy'n ysgrifennu'n unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, er mwyn rhoi gwybod ichi fy mod wedi mynd i'r Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach ar 23 Mai.

Roedd y canlynol yn bresennol yn y cyfarfod: Nigel Huddleston, Y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Busnes a Masnach; Richard Lochead, Gweinidog yr Alban dros Fusnesau Bach, Masnach ac Arloesi a James Davies, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Swyddfa Cymru. Bydd cyd-hysbysiad ynghylch y cyfarfod yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Yn y fforwm, fe wnaethom drafod yr wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau ynghylch y Cytundeb Masnach Rydd gydag India a Chanada yn ogystal â'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU a nifer o daleithiau Unol Daleithiau America, y mae rhai ohonynt wedi eu cwblhau, a rhai ohonynt yn dal i gael eu trafod.

Nododd y Gweinidog Huddleston y byddai'n trefnu bod y strwythur adrannol newydd a chyfrifoldebau gweinidogol dros yr Adran Busnes a Masnach yn cael eu rhannu â'r Llywodraethau Datganoledig, a gallaf sicrhau bod hyn yn cael ei rannu â chi petai o ddefnydd ichi.

Rhoddodd y cyfarfod gyfle imi gyfleu ein barn ar y trafodaethau presennol gydag India a Chanada. Fe wnes i barhau i bwysleisio ein safbwynt bod yn rhaid i unrhyw gytundeb masnach gefnogi ein hamcanion polisi ehangach, gan gynnwys mewn meysydd fel yr amgylchedd a llafur. Rwyf wastad wedi bod yn glir na ddylai unrhyw gytundeb masnach danseilio'r safonau uchel sydd gennym yma yng Nghymru.

O ran India a Chanada, fe ailadroddais ein barn, sef ein bod yn deall ei bod yn debygol y bydd cyfaddawdu mewn unrhyw gytundeb, ond y dylai Llywodraeth y DU sicrhau na ddylai unrhyw fynediad at y farchnad y cytunir arnynt ar gyfer y cytundebau hyn effeithio ar sectorau pwysig yng Nghymru, megis amaethyddiaeth a dur.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto i roi gwybod ichi am ddyddiad y cyfarfod nesaf.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy